CCWLSIR IIC 33
Senedd Cymru | Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee
Effaith costau cynyddol / Impact of increasing costs
Ymateb gan Cymdeithas Amgueddfeydd / Response from Museums Association

**Amgueddfeydd ac argyfwng costau byw**

**Gair am Gymdeithas yr Amgueddfeydd**

Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli ac yn cefnogi amgueddfeydd a phobl sy'n gweithio iddyn nhw a gyda nhw, ledled y Deyrnas Unedig. Mae gennym 12,000 o aelodau sy'n cynnwys pob math o amgueddfeydd, o rai bach lleol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr i sefydliadau mawr cenedlaethol a phobl sy'n gwneud pob math o waith, o gyfarwyddwyr i hyfforddeion. Os hoffech wybod rhagor am yr MA, ewch i'n gwefan: http://www.museumsassociation.org/home

Mae'r MA yn bryderus iawn am effaith yr argyfwng costau byw ar amgueddfeydd ledled y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru. Mae'r cynnydd sydyn mewn chwyddiant a chostau ynni yn cael effaith anghymesur ar y sector yn y meysydd a ganlyn:

**Y Gweithlu**

Mae cyflogau gweithwyr amgueddfeydd eisoes yn isel o'u cymharu â swyddi cyfatebol mewn sectorau eraill, fel y gwelir yn ein Harolwg Cyflogau 2017. Mae chwyddiant sydd mewn ffigurau dwbl ynghyd â chodiadau cyflog sy'n is na chyfradd chwyddiant yn golygu bod gweithwyr amgueddfeydd yn gweld eu hincwm mewn termau real yn gostwng yn gynt nag y gwnaeth ers degawdau.

Dros y misoedd nesaf, bydd llawer o weithwyr yn y sector yn cael trafferth talu costau ynni a bwyd sy'n cynyddu'n gyflym ac mae hynny eisoes yn gwneud drwg mawr i les corfforol a meddyliol.

Yn ogystal, mae cyflogau isel mewn amgueddfeydd yn arwain at brinder staff, yn enwedig mewn swyddi blaen tŷ.

**Sefydliadau**

Mae amgueddfeydd yn wynebu costau sy'n cynyddu'n gyflym ym mhob maes ac mae llawer o'n haelodau'n sôn am gynnydd o 300-500% yn eu costau ynni. Mae hyn yn achosi problemau sylweddol i'r sector wrth i sefydliadau geisio cynnal amodau priodol ar gyfer cynulleidfaoedd a chasgliadau. Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar amgueddfeydd gan fod llawer ohonynt mewn adeiladau hanesyddol sy'n defnyddio llawer o ynni.

Mae costau eraill yn cynyddu hefyd, yn cynnwys biliau cyflogau a chostau prosiectau cyfalaf ac mae pwysau ar gyllidebau rhiant-sefydliadau, fel gwasanaethau awdurdodau lleol. Daw'r pwysau hwn ar gyfnod pan fo'r sector yn dal wrthi'n ailadeiladu ar ôl y pandemig a degawd o lymder. Nid yw llawer o sefydliadau mewn sefyllfa gref i ddelio â sioc economaidd arall.

**Cynulleidfaoedd**

Mae'r cyhoedd yn mynd yn llai parod i wario ar brofiadau y mae'n rhaid talu amdanynt mewn amgueddfeydd, yn cynnwys amgueddfeydd ac arddangosfeydd dros dro sy'n codi tâl. Gwelir hyn yn yr ymchwil ddiweddaraf sy'n dangos bod costau byw wedi disodli Covid fel y prif reswm dros beidio ag ymweld ag atyniad. Dyma ergyd sylweddol i amgueddfeydd a oedd yn llwyddo i ailadeiladu cynulleidfaoedd ar ôl y pandemig.

Yn y cyfamser, bydd y cyhoedd yn gwneud mwy o ddefnydd o amgueddfeydd sydd heb dâl mynediad gan fod y rhain yn dal yn un o'r ychydig ddyddiau allan di-gost iddynt. Dros y gaeaf, mae'n debygol y bydd pobl sy'n methu gwresogi eu cartrefi yn mynd i amgueddfeydd gan eu bod yn fannau cynnes a diogel.

**Rydym ni'n galw am:**

**Cyflogau** – rydym yn galw ar amgueddfeydd a chyrff cyllido i gydweithio er mwyn sicrhau bod cynigion cyflog sylweddol yn cael eu gwneud i weithlu'r amgueddfeydd yn y flwyddyn ariannol hon. Mae angen i weithwyr amgueddfeydd gael setliadau cyflog a fydd yn eu galluogi i gadw i fyny â'r pwysau sydd arnynt o ran costau byw.

**Buddsoddiadau** – Rydym yn galw ar lywodraethau, cyrff hyd braich ac awdurdodau lleol i gydweithio i fuddsoddi'n strategol yn y sector amgueddfeydd. Mae'n hanfodol parhau i roi cymorth refeniw fel y gall sefydliadau aros ar agor yn y cyfnod heriol hwn. Rydym yn galw hefyd am gefnogaeth benodol i amgueddfeydd er mwyn sicrhau y gallant fod yn fannau cynnes i gymunedau yn ystod y gaeaf.

- Dylai llywodraeth San Steffan fynd ati ar fyrder i greu cylch newydd o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol a ddosberthir o dan Fformiwla Barnett, er mwyn sicrhau bod amgueddfeydd yn gallu goroesi'r gaeaf.

**Cymorth gyda biliau ynni** – Er ein bod yn croesawu'r cap chwe mis ar brisiau ynni ar gyfer busnesau ac elusennau, a fydd yn rhoi cymorth tymor byr i amgueddfeydd ddod trwy gyfnod y gaeaf, ateb dros dro yn unig ydyw ac mae'n dal yn aneglur sut y bydd yn gweithio.

Rydym yn galw am gamau brys i helpu amgueddfeydd i dalu costau ynni sy'n cynyddu'n gyflym. Mae ynni'n gost fawr, sefydlog ac mae'n rhaid i amgueddfeydd ei thalu er mwyn aros yn agored a chynnal safonau amgylcheddol ar gyfer eu casgliadau.

- Er mwyn eu helpu i wynebu'r her hon, dylai llywodraeth San Steffan gyflwyno cap ar brisiau ynni ar gyfer amgueddfeydd. (Mae'n bwysig nodi bod toriadau mewn trethi neu ad-daliadau ardrethi busnes yn annhebygol o helpu amgueddfeydd gan fod y rhan fwyaf ohonynt eisoes yn elwa ar ostyngiadau treth sylweddol.) Dylid trefnu'r cymorth hwn er mwyn sicrhau bod amgueddfeydd yn gallu gweithredu fel mannau cynnes i gymunedau yn ystod y gaeaf; a chynnal y safonau sy'n ofynnol wrth ofalu am gasgliadau cyhoeddus.

Yn y tymor hwy, mae angen buddsoddi mewn ffordd strategol i helpu amgueddfeydd i ddod yn fwy ynni-effeithlon ac eco-gyfeillgar, fel y gallwn leihau ein hôl troed carbon a chreu dyfodol cynaliadwy i'n sefydliadau a'n cymunedau.

Mae llawer o amgueddfeydd ar hyd a lled y Deyrnas Unedig wedi addo agor eu drysau i fod yn fannau cynnes a diogel ar gyfer eu cymunedau dros y gaeaf. Mae amgueddfeydd yn llefydd delfrydol i ddarparu'r gwasanaeth hwn; oherwydd, os codir tâl, mae'n isel, mae ganddynt y cyfleusterau a'r amwynderau y mae ar y cyhoedd eu hangen ac, wrth gwrs, mae ganddynt gasgliadau, storïau, arddangosfeydd a rhaglenni anhygoel sy'n gallu diddanu a diddori pobl am oriau. Ond er mwyn i amgueddfeydd wneud hynny, mae angen cymorth a buddsoddiad arnynt ar fyrder.